

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd
a gynhaliwyd yn Aberystwyth
ddydd Gwener, 10 Gorffennaf 2015

Presennol:

Yr Athro Syr Deian Hopkin, Llywydd	Colin R. John, Trysorydd	Hugh Thomas
Tricia Carter, Is-Lywydd	Enid Morgan	Wyn Penri Jones
Gareth Haulfryn Williams	Roy Roberts	Roy Evans
Phil Cooper	Susan Davies	

Aelodau staff:

Aled Gruffydd Jones	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Pennaeth Cyfarwyddiaeth Adnoddau Corfforaethol
Avril Jones	Pennaeth Cyfarwyddiaeth Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus
Pedr ap Llwyd	Ysgrifennydd a Phennaeth Llywodraethiant

Erail:

Linda Tomos	MALD
Rebecca Johnson	MALD
Doug Jones	Cyngor Whitley (Ochr Undebau)
Siân Thomas	Cyngor Whitley Ochr (Undebau)
Annwen Isaac	Ymgynghorydd Adnoddau Dynol

Sesiwn Agored

Adran 1 Eitemau Ffurfiol

1.1 Croeso'r Llywydd ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Llywydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

Roedd Michael Trickey wedi ymddiheuro am ei absenoldeb.

1.2 Datgan Buddiannau

Datganodd Gareth Haulfryn Williams fuddiant yn y materion hynny y mae'r Llyfrgell yn eu trafod o bryd i'w gilydd ynglŷn â Chronfa Treftadaeth y Loteri gan ei fod yn achlysurol yn cyflawni rôl ymgynghorol i'r Gronfa.

Datganodd Tricia Carter fuddiant yn y materion hynny y mae'r Llyfrgell yn eu trafod o bryd i'w gilydd â Llywodraeth Cymru gan ei bod yn Gyfarwyddwr Anweithredol o Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, Adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Llywodraeth Cymru.

Datganodd Huw Williams fuddiant mewn materion lle y câi'r Llyfrgell ei chynghori gan Geldards LLP.

Datganodd Dr Susan Davies fuddiant yn y materion hynny y mae'r Llyfrgell yn eu trafod o bryd i'w gilydd ynglŷn â Chronfa Treftadaeth y Loteri gan ei bod o bryd i'w gilydd yn cynorthwyo sefydliadau eraill gyda cheisiadau.

1.3 Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf. Cyfeiriwyd at un enghraifft o gam gyfieithu yn fersiwn Saesneg y cofnodion a oedd angen ei gywiro.


Adran 2 Materion 'byw' ac yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf

2.1 Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Adroddwyd bod y Penawdau Telerau a'r les wrthi'n cael eu paratoi ar hyn o bryd. Gobeithir y bydd yr Aelodau'n gallu cytuno ar y rhain yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Medi. Bydd y Pennaeth Adnoddau Corfforaethol yn trefnu i'w dosbarthu i'r Aelodau unwaith y byddant yn barod fel bod modd i'r Aelodau gynnig sylwadau arnynt, a'u hela ato.

Gweithredu: David Michael i weithio gyda'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru i gwblhau'r Penawdau Telerau a'r Les a'u dosbarthu cynted ag y bo modd ymhlith yr Aelodau a gwahodd sylwadau ganddynt.

2.2 Materion yn ymwneud â'r tân



2.3 Risgiau sy'n gysylltiedig â'r adeilad

Nodwyd bod cais sylweddol am arian cyfalaf wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn gallu mynd i'r afael a'r risgiau hynny - gan gynnwys risgiau iechyd a diogelwch a risgiau i'r casgliadau - mewn perthynas â chyflwr dirywiedig yr adeilad. Roedd yr aelodau'n falch iawn o glywed hyn ac yn enwedig felly wrth i'r risg i staff, y cyhoedd a chasgliadau gynyddu wrth i gyflwr yr adeilad a'r ystâd waethygu. Gobeithir yn fawr y bydd y Dirprwy Weinidog yn gallu uniaethu ei hun a phryderon y Bwrdd, cytuno ar lefel uchel y risgiau ac ystyried yn ddwys gynnwys yr adroddiad. Bydd yr Aelodau'n aros yn eiddgar am ymateb y Llywodraeth. Yn y cyfamser, nodwyd bod y Llyfrgell yn ceisio mynd i'r afael a rhai materion brys, ond ysywaeth oherwydd y cyfyngiadau ariannol presennol y mae nifer cynyddol o brosiectau pwysig yn gorfod cael eu rhoi o'r neilltu.

Gweithredu: David Michael i bwysu ar y llywodraeth i ymateb i'r cais am arian cyfalaf.

2.4 Adroddiad ymestyn – Merthyr Tudful 2013-2015

Roedd yr Aelodau'n ddiolchgar i'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd am ei adroddiad ac yn falch iawn o'r datblygiadau sydd wedi digwydd ym Merthyr Tudful yn ystod y 12 mis diwethaf yma. Da oedd gweld y costau'n cael eu rheoli'n foddhaol, serch hynny, yr hyn a fyddai o wir werth i'r Aelodau fyddai derbyn gwybodaeth a ddangosai wir werth neu wir effaith yr hyn y mae'r Llyfrgell wedi'i gyflawni ym Merthyr. Byddai derbyn gwybodaeth neu adroddiad o'r math yma yn help i'r Bwrdd benderfynu priodoldeb cyflwyno cynlluniau tebyg mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Os yw'r Bwrdd yn bwriadu ymestyn gwasanaeth y Llyfrgell i ardaloedd eraill o Gymru dywedodd un Ymddiriedolwr ei bod hi'n gwbl hanfodol fod yna gynllun

marchnata a hyrwyddo yn ei le a fyddai'n dwyn sylw'r cyhoedd i'r gwasanaeth sydd ar gael.

Gweithredu: Angen gweledigaeth glir gan y Tîm Rheoli o ran y ffordd ymlaen ynghyd ag asesiad o werth/effaith ein hymdrechion ym Merthyr Tudful.

2.5 Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd

Ar gais yr Ysgrifennydd cytunwyd na ddylid colli golwg ar ganfyddiadau'r Arolwg ac y dylid eu hystyried yng nghyd-destun trafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd ynghylch y ffordd ymlaen yn dilyn derbyn adolygiad PricewaterhouseCoopers (PwC). Gallai fod rhai canfyddiadau'r ddau adolygiad yn gorgyffwrdd.

Gweithredu: Pedr ap Llwyd i sicrhau fod y mater hwn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun adolygiad pwc.

Adran 3 Materion strategol a phrif bapurau

3.1 Rhaglen ailstrwythuro

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd. Roedd yn dda ganddo nodi fod y Llyfrgell wedi penodi Huw Williams yn Bennaeth yr Adran Ystadau a Gwasanaethau Atodol a Mererid Jones yn Bennaeth yr Adran Cyllid a Menter. Ysyaeth, methwyd a phenodi Pennaeth i'r Adran Cysylltiadau Allanol yn ddiweddar. Roedd y newyddion hyn yn peri pryder i'r Aelodau ac roeddent yn awyddus iawn i'r swydd gael ei ail hysbysebu. Gofynnwyd i'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd fynd ati'n syth i ail hysbysebu'r swydd a meddwl am ffyrdd o'i gwneud yn fwy deniadol e.e. hyblygrwydd o ran ei lleoliad, er i rai aelodau fynegi pryder os na fyddai'r swyddog wedi'i leoli'n llwyr yn y Llyfrgell.

Fel ymateb i gwestiwn gan yr Is Lywydd nodwyd bod gweithgareddau marchnata a hyrwyddo yn digwydd ar hyn o bryd gyda chymorth allanol gan Effective Communications yn cefnogi ymdrechion staff mewnol e.e. bu prosiect 'stori'r wythnos' yn weithredol a llwyddiannus ers tro erbyn hyn, trefnwyd cyhoeddusrwydd effeithiol i arddangosfeydd a bu'r hyrwyddo sy'n digwydd yn ddyddiol ar rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol yn ddi-ball.

3.2 Cost Gwerth yr Ymgynghorydd Rheoli Newid

Nodwyd cynnwys yr adroddiad. Roedd rhai Aelodau yn amharod i dderbyn yr awgrym fod y Rhaglen Ailstrwythuro wedi bod yn llwyddiant digamsyniol, gan nad oedd y targedau ariannol wedi'u cyrraedd na'u gwireddu.

3.3 Cynllun Busnes Briff / Cynllun Newid

Nodwyd cynnwys y papur a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd. Gwelai rai aelodau ddeunydd a gwybodaeth ddefnyddiol yn yr adroddiad. Cytunwyd mai'r ffordd ymlaen bellach mewn perthynas â'r mater hwn fyddai i'r Tîm Gweithredol ddarparu papur a fyddai'n amlygu neu'n atgoffa'r Aelodau o brif faterion y dydd a'r materion hynny a ddylai fod ar flaen meddwl pob Ymddiriedolwr. Byddai'r fath bapur yn ddefnyddiol meddid wrth geisio ffocysu ar faterion a haeddai sylw neilltuol yr Aelodau.

Nodwyd y sylwadau canlynol gan yr Aelodau:

- Mae angen creu Strategaeth Marchnata ar frys
- Mae angen manteisio ar bob cyfle a phob adroddiad perthnasol i bwysleisio difrifoldeb cyflwr yr adeilad presennol a'r angen i wario'n sylweddol arno i ddiogelu'r casgliadau a chydymffurfio â rheolau iechyd a diogelwch.

Gweithredu: Ysgrifennydd a'r Tîm Gweithredol i ddatblygu erfyn bydd yn gymorth i ffocysu trafodaethau'r Bwrdd a meddyliau'r Ymddiriedolwyr ar brif faterion y dydd.

3.4 Dangosyddion Cyflawni ar gyfer ¼ olaf 2014-2015

Nodwyd cynnwys y dangosyddion. Nododd yr Ysgrifennydd bwysigrwydd neilltuo digon o amser yn yr Hydref i'r Aelodau drafod a chytuno ar ddangosyddion cyflawni ar gyfer y flwyddyn nesaf: bydd y mater yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Busnes y Bwrdd am y flwyddyn.

3.5 Adroddiad cynnydd Adrannau a Chyfarwyddiaethau

Roedd yr Aelodau'n ddiolchgar i'r Tîm Gweithredol am ddarparu'r adroddiad hwn. Credai rhai bod yr adroddiad yn cynnwys gormod o wybodaeth ond yr oedd eraill yn teimlo fod manylder y cynnwys yn help mawr iddynt gael gwell dirnadaeth o ystod a maint yr hyn sy'n digwydd yn y Llyfrgell rhwng cyfarfodydd. Cytunwyd y byddai'r ddarpariaeth hon yn parhau i'r dyfodol.

3.6 Ceisiadau CDL – y sefyllfa bresennol

Roedd yr Aelodau'n ddiolchgar i Avril Jones am ddarparu'r wybodaeth a'r diweddariad defnyddiol hwn.

Adran 4 Materion Ariannol

4.1 Adroddiad cyllidebol hyd 31/05/2015

Oherwydd y prysurdeb a fu i gwblhau'r Cyfrifon Blynnyddol mewn pryd, nid oedd yr Adroddiad Cyllidebol wedi'i baratoi ar gyfer y cyfarfod hwn. Addawodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y byddai'r adroddiad yn barod ymhen ychydig ddyddiau a'i ddosbarthu i'r Aelodau'n fuan wedyn. Bydd croeso i Ymddiriedolwyr gysylltu â David Michael ynghylch unrhyw agwedd o gynnwys yr adroddiad.

Gweithredu: David Michael i ddosbarthu'r adroddiad cyllidebol i'r Aelodau unwaith y bydd yn barod.

4.2 Cyfrifon Blynnyddol LIGC 2014-15

Cyflwynodd y Trysorydd y Cyfrifon Blynnyddol a bodlonwyd yr Aelodau fod y cyfrifon wedi'u cwblhau. Roedd y Trysorydd yn ddiolchgar i Gyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a staff yr Adran Gyllid a Menter am eu gwaith wrth baratoi'r cyfrifon ac am effeithlonrwydd yr Adran yn ystod y flwyddyn. Roedd hefyd yn ddiolchgar i Swyddfa Archwilio Cymru am eu cydweithrediad hwythau wrth ymgymryd â'r gwaith.

Wrth gyflwyno'r cyfrifon pwysleisiodd y Trysorydd yr angen i'r Tîm Gweithredol gyflwyno cynlluniau arbed costau pellach gan fod yr arbedion y gobeithid bod wedi'i gwireddu o ganlyniad i'r broses ailstrwythuro yn syrthio'n fyr o'r nod: roedd angen arbedion pellach o oddeutu £325k meddid. Nododd David Michael fod hyn eisoes ar y gweill.

Diolchodd Wyn Penri Jones i Colin John am ei waith rhagorol yntau fel Trysorydd yn ystod y flwyddyn ac am gyflwyno'r cyfrifon yn syml a deheuig: llwyddodd yn anrhydeddus, meddai, i ddarparu cyngor ac arweiniad clir i'r Llyfrgell tra, ar yr un pryd, yn gorfod cynnal ei gwmni ei hun.

Cytunwyd y dylid edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno a chymeradwyo'r cyfrifon yn hwyrach yn y flwyddyn: awgrymwyd bod y pwysau'n sy'n cael ei osod ar staff Llyfrgell a Swyddfa Archwilio Cymru i gyflwyno'r cyfrifon mor fuan ôl diwedd y flwyddyn ariannol yn annheg.

Adran 5 Pecyn Gwybodaeth

5.1 Materion y Llyfrgellydd

Nodwyd cynnwys yr adroddiad a oedd wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau. Cyfeiriodd Aled Gruffydd Jones hefyd at ei ddyled i gwmni Effective Communications am eu mewnbwn i waith hyrwyddo'r Llyfrgell yn ystod y misoedd diwethaf a hefyd at y trafodaethau a oedd wedi bod yn cymryd lle rhwng Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant mewn perthynas â datblygiad 'Egin' yng Nghaerfyrddin. Cyfeiriodd hefyd at agoriad arddangosfa Phillip Jones Griffiths a'r bwriad i fynd a hi i fannau y tu allan i Aberystwyth. Roedd yr Aelodau'n ddiolchgar i'r staff hynny a fu'n gyfrifol am drefnu'r arddangosfa ragorol yma.

5.2 Materion y Llywydd

Llongyfarchodd y Llywydd y Llyfrgell a'r staff ar lwyddo i ennill safon Achrediad Gwasanaethau Archifau, ac yn arbennig i Avril Jones a Sally McInnes am ei rôl allweddol wrth baratoi'r cais.

Adran 6 Unrhyw fater arall

Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.